# Parhau i Ddiogelu'r Cyhoedd a Chefnogi Busnesau yn yr Argyfwng Costau Byw

## Effeithiau a Chanlyniadau Gwasanaethau Safonau Masnach Lleol yng Nghymru yn 2023/24

Creodd y Gymdeithas Prif Swyddogion Safonau Masnach (ACTSO) y Fframwaith Effeithiau a Chanlyniadau yn 2018/19 i gynnig data cenedlaethol i Gymru a Lloegr ar waith a wnaed gan Wasanaethau Safonau Masnach awdurdod lleol. Dyma drydydd adroddiad Cymru ac mae'r ddogfen hon yn cynnwys crynodeb o uchafbwyntiau o'r gwaith a wnaed yn 2023/24.

Eleni, ar draws pob maes gwaith, mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r argyfwng costau byw ar ddefnyddwyr a busnesau yn amlwg. Mae'r angen am gyngor busnes effeithiol a chwarae teg i fusnesau cyfreithlon yn mynd i fod yn hanfodol i'w cadw mewn busnes yn ystod cyfnodau anodd. Mae risgiau i ddefnyddwyr yn ymwneud â diogelwch nwyddau rhad neu anghyfreithlon a honiadau ffug yn ymwneud â phrisiau, costau ac effeithlonrwydd ynni yn tyfu ac mae'r effaith o golli arian i sgamwyr yn fwy nac erioed.

**Yn 2023/24 mae Gwasanaethau Safonau Masnach lleol yng Nghymru wedi:**

- **Atal dros £38 miliwn o golled i gwsmeriaid**
- **Arbed £893,000 i ddioddefwyr sgamiau.**
- **Darparu bron i 1,900 awr o gyngor i fusnesau trwy bartneriaethau Awdurdod Sylfaenol, cynnydd ar y llynedd.**
- **Atafaelu dros 376.000 o gynnyrch fêps untro.**
- **Dros 13,000 o wiriadau cydymffurfio i sicrhau bod busnesau yn bodloni eu cyfrifoldebau cyfreithiol a rhoi cyngor iddynt ar y safle.**

## MYND I'R AFAEL Â CHOLLED AC ATAL NIWED

Un o swyddogaethau allweddol Safonau Masnach yw atal colled i gwsmeriaid a busnesau (ariannol ac anariannol), mynd i'r afael ag ymddygiad troseddol sy'n arwain ato a chefnogi dioddefwyr. Amcangyfrifodd Astudiaeth Diogelu Defnyddwyr 2022 y Llywodraeth bod £54 biliwn mewn niwed heb ei fodloni ar draws Prydain Fawr.

**Ymhlith ystadegau allweddol ar gyfer 2023/24:**

- **107 o ddiffynyddion** wedi'u herlyn a'u dyfarnu'n euog.
- **Dedfrydau carchar** o **46 o flynyddoedd** wedi'u cyflwyno. Mae hyn yn cynnwys dedfrydau di-oed a gohiriedig.
- Gorchmynnwyd diffynyddion i dalu **£918,000 mewn Enillion Troseddau.**
- Rhoddodd Safonau Masnach awdurdod lleol gefnogaeth i bron i **1,600 o ddioddefwyr sgamiau.**
- Fe wnaeth gwaith i dorri ar draws postiadau twyll marchnata torfol, atal taliadau rhag mynd allan, post ayyb **arbed tua £900,000 i ddefnyddwyr.**
- Dros **£375,000 o iawndal** yn cael ei ddyfarnu i ddioddefwyr gan y llysoedd.



## CEFNOGI'R ECONOMI LEOL

Mae busnesau bob amser wedi bod angen cyngor a chefnogaeth gan Safonau Masnach i'w helpu i lywio'r ystod o gyfreithiau sy'n sicrhau eu bod yn masnachu'n deg a bod eu cynnych yn ddiogel. Eleni, wrth i fusnesau barhau i adfer o effeithiau Covid, ac wynebu materion cadwyn gyflenwi a chostau ynni, mae'r gallu i gyrchu'r cyngor cywir a chael hyder erioed wedi bod yn bwysicach.

**Ymhlith ystadegau allweddol 2023/24 oedd:**

Ymateb i bron i **1,700 o geisiadau** am gyngor gan fusnesau nad oeddynt yn rhan o'r cynllun Awdurdod Sylfaenol, yn debyg i lefelau cyn y pandemig.

Cynhaliwyd dros 13,000 **o ymweliadau â busnesau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gyfraith newydd a rhoi cyngor** i'w helpu i gywiro unrhyw ddiffyg cydymffurfio.

Roedd dros **3,700 o fusnesau yn amodol ar ymyriad**, megis cyngor, ymchwiliad neu atgyfeiriad.

Atafaelwyd dros **10,350 o gynnyrch ffug gyda gwerth marchnad o dros £1.1 miliwn**, sy'n torri eiddo deallusol busnesau cyfreithlon.

## HYRWYDDO IECHYD A LLESIANT

Mae Safonau Masnach yn ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau i ddiogelu a hyrwyddo iechyd a llesiant cymunedau lleol gan gynnwys sicrhau bod cynnyrch y mae pobl yn eu prynu yn ddiogel, bod bwyd yn cael ei labelu yn gywir, a bod iechyd a llesiant da byw yn sicr.

Mae cynnyrch â chyfyngiad oed, gan gynnwys cynnyrch fêpio, tybaco, alcohol, a chyllyll, hefyd yn feysydd ffocws arwyddocaol i lawer o awdurdodau. Mae Safonau Masnach yn gorfodi ac yn cynghori ar ystod eang iawn o ddeddfwriaeth gwerthiannau â chyfyngiad oed i helpu i gadw pobl ifanc yn ddiogel.

**Ymhlith yr ystadegau ar gyfer 2023/24 y mae:**

**Atafaelwyd dros 6,700 o gynnyrch anniogel neu nad oeddynt yn cydymffurfio neu eu tynnu o'r farchnad** yn dilyn ymyriadau gan Safonau Masnach.

Mae'r **arbedion i gymdeithas**, o ran gwerth cynnyrch yn dros **£265,000.**

Adnabuwyd dros **1,750 o fusnesau** fel rhai a oedd yn **cyflenwi bwyd a gafodd ei gamddisgrifio, alergenau heb eu datgan yn gywir, yn cynnwys cydrannau gwenwynig** neu **anghyfreithlon neu'n gysylltiedig â thwyll bwyd.**

Canfuwyd bod dros **1,250 o fusnesau** yn **torri deddfwriaeth iechyd a llesiant anifeiliaid.**

**Cafodd 140 eiddo** eu profi i weld a oeddynt yn gwerthu **alcohol** i'r rhai dan oed; y gyfradd fethiant ar gyfartaledd oedd **23%.**

Derbyniodd gwasanaethau Safonau Masnach ar draws Cymru **dros 18,000 o hysbysiadau ac atgyfeiriadau** gan Wasanaethau Cyngor ar Bopeth ynghyd â bron i **9,000** gan bartneriaid gwasanaeth eraill

**Profwyd 422 eiddo** am fêps anghyfreithlon; y gyfradd fethiant oedd **14.5%.**

Cafodd ryw **1.3 miliwn o sigarennau anghyfreithlon** eu hatafaelu, ynghyd â **0.220 tunnell o dybaco rholio â llaw anghyfreithlon** gyda gwerth ar y stryd cyfun o **£735,000**

## CEFNOGI'R AMGYLCHEDD, SERO NET A NEWID YN YR HINSAWDD

Mae'r agenda Sero Net a Newid yn yr Hinsawdd yn dod yn bwysicach bob blwyddyn, gyda mwyafrif awdurdodau lleol yn gweld y mater hwn fel blaenoriaeth corfforaethol allweddol.

Bydd honiadau sy'n gysylltiedig â defnydd ynni ac effeithlonrwydd ynni yn bwyntiau marchnata go iawn wrth i gostau ynni godi'n gyflym ac wrth i aelwydydd geisio arbed arian. Yn ehangach mae "gwyrddgalchu" a honiadau gwyrdd wedi dod yn bryder a chyhoeddodd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd adroddiad ar hyn.

Ni chesglir data ar wahân ar waith Safonau Masnach i gefnogi'r agenda hwn, byddant yn cael eu cynnwys o fewn y gwiriadau cydymffurfio, cyngor busnes a ffigurau erlyn yn y ffigurau uchod.

## COSTAU BYW

Mae argyfwng costau byw parhaus wedi bod yn ddylanwad mawr ar yr holl waith a wneir gan Safonau Masnach. Mewn rhai ardaloedd, mae prosiectau penodol wedi'u cynnal i fynd i'r afael â materion megis prisiau bwyd, cywirdeb dosbarthiadau tanwydd a chefnogaeth ychwanegol i ddefnyddwyr sydd wedi'u twyllo.